
# Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol / Sylfaen

**Mae Bagloriaeth Cymru yn seiliedig ar:**
**- Dystysgrif Her Sgiliau.**
**- Cymwysterau Ategol.**




***Dylai pob dysgwr gwblhau o leiaf un Her yn unigol ac o leiaf un Her mewn tîm.***

Y sgiliau bydd yn cael eu datblygu yw: **Llythrennedd, Rhifedd, Llythrennedd digidol, Meddwl yn feirniadol a datrys problemau, Cynllunio a threfnu, Creadigrwydd ac arloesedd, Effeithiolrwydd personol.**

Mae'r Cymwysterau Ategol yn cynnwys dau gymhwyster TGAU gorfodol mewn Saesneg Iaith neu Gymraeg Iaith ynghyd â Mathemateg – Rhifedd. Mae angen tri chymhwyster TGAU arall hefyd, y gall dau ohonynt fod yn gymwysterau cyfwerth (BTEC).

*Mae'n bosib ennill y cymhwyster ar lefel **GENEDLAETHOL** neu ar lefel **SYLFAEN**.*

Er mwyn bodloni gofynion Bagloriaeth **GENEDLAETHOL** Cymru, rhaid ennill gradd A*- C ym mhob un o'r pum cymhwyster Ategol.
- TGAU Cymraeg Iaith neu TGAU Saesneg Iaith ar raddau A* - C;
- TGAU Mathemateg - Rhifedd ar raddau A* - C;
- O leiaf tri chymhwyster TGAU arall ar raddau A*- C.

Er mwyn bodloni gofynion Bagloriaeth **SYLFAEN** Cymru, rhaid ennill gradd A*- G ym mhob un o'r cymwysterau Ategol.

- TGAU Cymraeg Iaith neu TGAU Saesneg Iaith ar raddau A*- G;
- TGAU Mathemateg - Rhifedd ar raddau A*- G;
- O leiaf tri chymhwyster TGAU arall ar raddau A*- G.

## Tystysgrif yr her sgiliau

**Her cymunedol:** 10 awr o ddysgu ac addysgu, 15 awr o asesiad dan reolaeth sy'n cynnwys 10 awr o gyfranogiad.
TASGAU: 1) Archwiliad sgiliau 2) Cynllun 3) Cynllun cyfranogiad a datganiad cadarnhau 4) Myfyrdod personol

***Mae'n bwysig cofrestru pob disgybl ar y system e-portffolio fel eu bod yn gallu llwytho i fyny eu gwaith.***

**Her dinasyddiaeth fyd-eang:** 15 awr o ddysgu ac addysgu,10 awr o asesiad dan reolaeth.
TASGAU: 1) Safbwynt personol 2) Pecyn codi ymwybyddiaeth 3) Myfyrdod personol

**Her menter a chyflogadwyedd:** 10 awr o ddysgu ac addysgu, ac 20 awr o asesiad dan reolaeth.
TASGAU: 1) Archwiliad sgiliau, cynllun datblygu, cais am rôl mewn tîm 2) Arddangosiad weledol, cofnodion cyfarfodydd
3) Cofnod personol a datganiad cadarnhau 4) Myfyrdod personol

**Prosiect unigol:** 40 awr ar gyfer y rhaglen dysgu, addysgu ac er mwyn cwblhau'r prosiect.
TASG: Prosiect ysgrifenedig rhwng 1,000 a 2,000 o eiriau o hyd. Dylai gynnwys amrywiaeth o graffiau, delweddau, tablau ystadegol, diagramau a lluniau.

## Mae'r Dystysgrif Sgiliau werth 1 TGAU i ddisgyblion

| Cyflwyno Cofrestriadau | Ionawr 2016 | Mehefin 2016 | Ionawr 2017 | Mehefin 2017 |
|---|---|---|---|---|
| Her Menter a Chyflogadwyedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Her Dinasyddiaeth Fyd-eang | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Her y Gymuned | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Project Unigol | X | X | ✓ | ✓ |
| Cyfnewid | X | X | X | ✓ |

Mae cyflawni cydrannau'n seiliedig ar allu dysgwr i fodloni'r deilliannau dysgu. Dyfernir gradd grynodol ar gyfer pob cydran.

- **Llwyddiant Lefel 1;**
- **Llwyddiant Lefel 2;**
- **Teilyngdod Lefel 2;**
- **Rhagoriaeth Lefel 2.**

Mae'r bandiau perfformiad yn galluogi'r dysgwyr i ddangos eu gallu i fodloni'r deilliant dysgu. Mae pedwar band perfformiad yn gysylltiedig â phob cydran, gydag amrediad o dri phwynt yn cael eu dyrannu i bob un. Dylid dyrannu 0 marciau lle nad oes tystiolaeth neu'r gwaith ddim yn haeddu credyd.

| Band Perfformiad | Band 1 | Band 2 | Band 3 | Band 4 |
|---|---|---|---|---|
| Pwyntiau | 1 - 3 | 4 - 6 | 7 - 9 | 10 - 12 |

Bydd aseswyr yn dyrannu sgôr ar gyfer pob deilliant dysgu, ac yn coladu'r pwyntiau ar draws y gydran gyfan er mwyn darparu cyfanswm y sgôr. Caiff y radd grynodol ar gyfer y gydran ei chyfrifo o gyfanswm y sgôr.

Mae'r tabl canlynol yn nodi manylion am gyfanswm y sgorau sydd ar gael ar gyfer pob un o'r pedair cydran sy'n rhan o'r Dystysgrif Her Sgiliau.

| Cydran | Cyfanswm y Sgôr |
|---|---|
| Project Unigol | 0 - 96 |
| Her Menter a Chyflogadwyedd | 0 - 36 |
| Her Dinasyddiaeth Fyd-eang | 0 - 36 |
| Her y Gymuned | 0 - 36 |

Rhoddir gradd A* - C am y Dystysgrif Her Sgiliau Genedlaethol. I ennill y dyfarniad Cenedlaethol, rhaid i'r dysgwr gyflawni pob un o'r cydrannau, y Project Unigol a'r tair Her, gydag o leiaf 80% ar lefel 2.